

Gwers 14 – Noson ddi-gwsg Samuel

Nodiadau Cefndir i'r Athro

1 Samuel 3:1–21

Mae hanner cyntaf llyfr Joshua yn ymwneud â meddiannu'r wlad, hynny'n golygu concro llawer o drefi a dinasoedd (yn cynnwys Jericho), a byddinoedd. Un frwydr nodedig oedd yr un yn erbyn yr Amoriaid yn Gibeon (Joshua 10:1–27), pan alwodd Joshua ar yr Arglwydd, "Haul, aros yn llonydd yn Gibeon, a thithau, leuad, yn nyffryn Ajalon". Parodd Duw "i'r haul sefyll ynghanol yr wybren, heb frysio i fachludo am ddiwrnod cyfan" nes i'r genedl orchfygu'r gelyn. Enghraifft arall o Dduw'n arwain ac yn ymladd dros y genedl. Bwriad Duw ar gyfer y genedl oedd iddi ymsefydlu ei hun a bod yn ufudd gan ddangos ei ffydd yn yr Un oedd wedi eu harwain o gaethiwed i ryddid. Rhan yr Israeliaid yn yr addewid fawr oedd ufudd–dod i Dduw, dilyn ei orchmynion, ond dro ar ôl tro, hyd yn oed ar ôl cyrraedd Gwlad yr Addewid, methu a wnaent. Cyfarwyddodd Duw y genedl i buro'r wlad, cael gwared ar y duwiau dieithr, a dileu addoliad paganaidd y Canaaneaidd o'r tir. Ond ni fu iddynt orffen y dasg a osodwyd. Unwaith y cawsant feddiant o'r wlad, bu iddynt laesu dwylo gan adael rhai dinasoedd heb eu concro, ac aeth pethau o chwith. Dros y canrifoedd nesaf byddai'r Israeliaid yn cael gan eu temtio gan dduwiau'r Canaaneaidd, ac yn anghofio Duw Abraham Isaac a Jacob.


Roedd y cyfnod yn dilyn marwolaeth Joshua yn un tywyll iawn, yn amser o anrhefn llwyr, gydag anfoesoldeb yn rhemp, a phawb yn gwneud yn ôl ei fypwys ei hun. Dyna gyfnod y Barnwyr (gweler panel). Yn ei bregeth yn Antiochia Pisidia, dywed Paul fod Duw, am ryw 450 mlynedd wedi rhoi barnwyr i'r genedl hyd at y proffwyd Samuel, pan ofynasant am frenin.

Samuel, mab Elcana a Hanna oedd y cyntaf o'r proffwydi, ac yn ollynydd i Eli yn yr offeiriadaeth. Nid oedd yr offeiriadaeth yn rhydd o lygredd gyda dau fab Eli yn anonest ac yn cymryd cig yr aberth iddynt eu hunain. Mewn cyfnod trwblus a thywyll yn hanes y genedl clywyd gweddi o ffydd o enau gwraig a ymddiriedai yn Nuw. Wedi bod yn ddi-blentyn ers nifer o flynyddoedd, addawodd Hanna i Dduw pe bai hi'n cael mab y byddai'n ei gysegru i wasanaeth yn y deml. Pan oedd Samuel yn rhyw ddwyflwydd oed dygodd Elcana ei mab i'r ganolfan addoli a'i adael gydag Eli, offeiriad Seilo. Yr oedd gweddi i chwarae rhan bwysig ym mywyd Samuel; fe'i ganwyd o ganlyniad i weddi (1 Samuel 3:1–19); sicrhaodd frwydr i bobl Dduw drwy weddi (1 Samuel 7:5–10); pan alwodd y genedl am frenin gweddiodd Samuel (1 Samuel 8:6).

Yn y dyddiau hynny, ni fyddai Duw'n llefaru'n uniongyrchol gydag unigolion, 'yr oedd gair yr Arglwydd yn brin a gweledigaeth yn aneglur'. Fodd bynnag, clywodd Samuel lais Duw yn galw arno. Ac yntau ar ddyletswydd yn y cysegr le, ac wedi gorwedd i gysgu, galwodd Duw arno, ond tybiai ef mai Eli oedd yn galw. Pan alwodd y llais y trydydd tro sylweddolodd Eli mai Duw oedd yn galw ar y bachgen a dywedodd wrtho, pe bai'n clywed y llais unwaith eto am iddo ateb, "Llefara, Arglwydd, canys y mae dy was yn gwrando" (1 Samuel 3:9,10). Neges o farn ar dŷ Eli oedd gan Dduw.

Y Barnwyr

Yn dilyn cyfnod pan oedd y genedl wedi troi cefn ar Dduw byddent yn galw arno, a byddai yntau'n anfon rhywun i'w hachub, sef 'barnwr'. Yn arferol, pennaeth teulu neu lwyth oedd y barnwr gyda'i awdurdod wedi ei sylfaenu ar arferiad. Roedd barnwr yn arweinydd mewn brwydr ac yn llywodraethwr mewn heddwch. Roedd cyfnod pob barnwr yn amrywio o ran hyd, o saith hyd at ddeugain mlynedd. Y mwyaf nodedig ohonynt oedd Deborah, Gideon a Samson.



Un noson, clywodd Samuel Dduw yn galw ei enw.
Lliwia'r llun yma o Samuel yn gwrando ar lais Duw.
Darllen y stori hon yn 1 Samuel 3:1-10.

Gwers 14 – Noson ddi-gwsg Samuel

Samuel ac Eli | 1 Samuel 1 a 3

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 62



Gwers 14

Noson ddi-gwsg Samuel

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN/DROS 7 oed

Noson ddi-gwsg Samuel tud 62

BEIBL LLIW STORI DUW

Duw yn siarad yn ystod y nos tud 100

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Samuel yn clywed llais tud 50

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Samuel ac Eli tud 59

BEIBL BACH I BLANT

Un noson Dywyll. Stori Samuel yn Ifanc tud 172

Y BEIBL I BLANT mewn 365 o storïau

'Llefara, Arglwydd' (107) tud 128

BEIBL LLIW Y TEULU

Duw yn siarad efo Samuel (106) tud 66

I Ddechrau ...

Gemau gwrando

"Soch, soch"

Dylai'r plant eistedd ar gadeiriau mewn cylch. Mae un gwirfoddolwr yn cael mwgwd dros ei ll/lygaid. Ar ôl cael ei throelli, dylai'r gwirfoddolwr gael ei rhoi i eistedd ar lun rhywun. Mae'r person hwnnw'n gwneud sŵn "Soch, soch," gan geisio newid ei ll/lais. Mae'r person gyda'r mwgwd yn ceisio dyfalu ar lun pwy y mae'n eistedd. Chwaraewch sawl tro. Pwysleisiwch bwysigrwydd gwrando'n ofalus er mwyn nabod y llais!

"Rhowch gân i mi." (Cystadleuaeth canu)

Gofynnwch am wirfoddolwyr sydd yn hoff o ganu. Un ar y tro, gofynnwch iddynt ganu cân boblogaidd, e.e. hwiangerdd (paratowch gopiâu o'r geiriau os bydd angen). Rhaid iddynt ganu'r gân wrth wrando ar ddarn hollol wahanol o gerddoriaeth trwy glustffonau ar beiriant MP3 neu gryno ddisg. Rhowch wobwr i'r cystadleuydd sy'n gwnaeth yr ymdrech orau.

Yr Hanes ...

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio'r Beibl Gweithgaredd neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau ac wedyn, defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori. Neu, defnyddiwch y syniad canlynol wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun.

Copiwch rhai o frawddegau allweddol yr hanes ar ddarnau unigol o bapur. Paratowch set ar gyfer pob tîm/pâr posibl. Gosodwch y brawddegau mewn setiau ar wahân ochr arall yr ystafell i'r timoedd/parau. Mae aelodau o'r tîm yn cymryd tro i nôl un frawddeg, cyn ceisio gosod y brawddegau yn y drefn gywir. Ar ôl i bawb orffen y dasg, darllenwch drwy'r hanes, neu wahodd darllenwyr hyderus i ddarllen.

Cymhwyso

Cwis "Adnabod."

Meddyliwch o flaen llaw am frawddegau i ddisgrifio 3 person sy'n adnabyddus i'r plant.

Gofynnwch i'r plant dyfalu pwy ydych yn eu disgrifio. Darllenwch un frawddeg ar y tro.

Trafodwch gyda'r plant sut ydym yn dod i adnabod pobl – trwy dreulio amser gyda nhw, trwy ofyn cwestiynau iddynt, trwy eu gwyllo, trwy siarad â nhw, neu os ydym yn sôn am bobl sydd wedi

marw, trwy ddarllen amdanynt a siarad gyda phobl a oedd yn eu hadnabod.

Trafodwch wedyn sut y bu i Dduw siarad â Samuel. Sut y mae Duw yn siarad gyda ni heddiw? Sut ydyn ni'n gallu dod i adnabod Duw?

Adnod i ddysgu

"Daliwch ati i weddio." (1 Thesalonïaid 5:17)

Bydd angen chwaraewr CDd a geiriau'r adnod wedi'u hysgrifennu ar blatiau papur, un gair ar un plât. Dangoswch yr adnod i'r plant a'i darllen. Esboniwch wrth y plant mai dyma ydi geiriau Paul, un o arweinwyr pwysig yn yr Eglwys ar ôl i Iesu fynd yn ôl i'r nef, i'r Cristnogion yn Thessalonica. Mae Paul yn ein hannog i weddio drwy'r amser. Mae'r plant yn sefyll mewn cylch yn dal y platiau sydd ddim mewn trefn. Wrth i'r geiriau chwarae dylai'r plant basio'r platiau o amgylch a phan fydd y gerddoriaeth yn peidio dylai'r plant sy'n dal y platiau geisio sefyll yn nhrefn yr adnod. Chwaraewch mwy nag unwaith fel bod y plant i gyd yn cael tro.

Cân

"Gweddi sydd fel codi ffôn", Tyrd i ddathlu, rhif 7.

Cyflwyniadau dramatig

Barod i wrando? – Hanesion pobl a wrandawodd ar Dduw

Mae'r Beibl yn llawn o hanesion Duw yn siarad gyda gwahanol bobl. Roedd rhai yn gwrandao arno, doedd eraill ddim. Mae'r hanesion canlynol yn cynnwys rhai esiamplau. Rhannwch eich grŵp yn grwpiau llai gydag un hanes i bob grŵp. Gadewch i'r plant drafod yr hyn maen nhw'n ei gofio o'r hanes a'i ddarllen wedyn o'r Beibl Bach i Blant. Oedd y person yn y stori yn gwrandao ar Dduw neu beidio? Gofynnwch iddynt actio'r stori. Gwnewch amser i bawb wyllo "perfformiadau" ei gilydd.

Adda, Noa, Moses, Jona, Pedr, Saul/Paul, Ioan.

Gweddi

Rhowch ddarn o bapur a phensel i bawb a gofynnwch iddynt wneud amlinelliad llaw. Bydd y llaw yn ein cynorthwyo i weddio:

Bawd – y bys sydd agosaf ataf = Gweddio dros y bobl sydd agosaf ataf, e.e. teulu a ffrindiau gorau.

Y bys sy'n pwyntio = Gweddio dros y bobl sydd ag awdurdod drosod.

Y bys mwyaf = Gweddio dros arweinwyr ein gwlad a gwledydd eraill.

Y bys gwanaf = Gweddio dros bobl anghenus.

Y bys lleiaf = Gweddio drosod fi fy hun.

Adnoddau Ychwanegol

Gwerslyfrau Golau ar y Gair

Samuel: Duw yn siarad â Samuel

Taflenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres C – Samuel

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 16: Duw yn siarad â Samuel

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 290

Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 19: Un noson dywyll

Powerpoint ar wefan

visionforchildren.co.uk

Hanes Duw yn galw Samuel

Llyfrau Stori

Samuel yn helpu Eli

